Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Arolygiad Gofal Plant ar

**Meithrinfa Ddydd Gymraeg Miri Meithrin (Pwllglas)**

**Gronant**
**Rhuthun**
**LL15 2PH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**12 Chwefror 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Meithrinfa ddydd yw Miri Meithrin Pwllglas wedi'i lleoli ym mhentref gwledig Pwllglas ar gyrion Rhuthun. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 22 o blant ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:30 a 6pm heblaw am Wyliau'r Banc ac am wythnos rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Gofelir am y plant mewn dau brif ardal chwarae ar y llawr gwaelod gydag ystafell babis ac ystafell gysgu ar y llawr cyntaf. Mae yna ardd fawr hefyd y mae'r plant yn ei defnyddio'n aml. Y person cofrestredig yw Mari Roberts. Gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ydyw, gyda'r holl staff yn siaradwyr Cymraeg, a defnyddir Saesneg hefyd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae hwn yn wasanaeth prysur gyda phlant egnïol, hapus a bodlon. Mae'r ymarferwyr yn garedig, yn brofiadol, yn gymwys ac mae ganddynt gydberthynas dda â'r plant. Caiff rhaglen amrywiol o weithgareddau ei chynllunio er budd pob plentyn. Mae'r awyrgylch yn ddiogel ac wedi'i addasu i ofalu am blant gyda llawer o gyfleusterau dan do ac yn yr awyr agored. Caiff y gwasanaeth ei arwain a'i reoli mewn ffordd effeithlon a llwyddiannus, ac mae'n gwneud newidiadau er budd y plant.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol:

- Mae lloriau newydd yn yr ystafelloedd llawr gwaelod yn golygu y gall y plant fwyta prydau yn eu hystafelloedd craidd lle mae mwy o le ar eu cyfer.
- Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei gwella gydag ardal ar wahân i'r plant hŷn er mwyn iddynt allu chwarae gyda'r gegin fwd ac eitemau eraill.
- Mae gazebos wedi cael eu defnyddio yn yr ardal awyr agored glaswelltog er mwyn i'r babis fod allan yn ddyddiol yn ystod yr haf.
- Mae'r plant yn fwy diogel os bydd achos o dân gan fod system larwm dân newydd wedi cael ei gosod ac mae driliau tân rheolaidd yn cynnwys yr holl ymarferwyr.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae dau argymhelliad wedi cael eu gwneud mewn perthynas â chynllunio gweithgareddau a rheoli ymarferwyr, ac mae'r rhain i'w gweld yn adran 5.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant lefel uchel o lesiant am fod ganddynt lais cryf ac am eu bod yn gallu dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn hapus, wedi ymlacio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr gan gymryd rhan yn y gweithgareddau diddorol a gynigir. Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn magu hyder ac annibyniaeth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cael eu hannog i siarad, ac mae'r ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn rhoi dewisiadau iddynt.

Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol am eu bod yn ymwybodol o'r gweithgareddau oedd ar gael, gan gynnwys chwarae gyda chylchynau, peli a dalwyr, a beiciau yn yr awyr agored. Er bod y gofod dan do yn gyfyngedig, roedd rhai gweithgareddau wedi'u gosod allan a gwelsom blentyn yn dewis jig-so o'r ardal storio. Roedd y plant yn symud o amgylch yn ddirwystr ac yn hyderus ac roedd patrymau cysgu'r plant lleiaf yn cael eu dilyn. Roedd y plant yn hyderus wrth siarad â ni a'u hymarferwyr am fod eu hiaith cartref yn derbyn ystyriaeth wrth i'r Gymraeg gael ei siarad gyda'r holl blant ac weithiau Saesneg. Roedd y plant yn cael cymorth i ddarganfod datrysiadau ac i wneud pethau drostynt eu hunain fel y dangoswyd wrth iddynt gael eu hannog i fwydo eu hunain a helpu i roi siapiau mewn trefnydd siapiau.

Mae gan y plant lais ac maent yn gwybod bod yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn eu parchu.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd pob plentyn wedi setlo'n dda ac yn hapus i ddangos i ni yr hyn roeddent yn ei wneud a'u gweithgareddau paentio. Mynegodd y plant fwynhad wrth chwarae ar feiciau yn yr awyr agored. Roeddent yn fodlon, roedd ymarferwyr yn siarad â nhw'n garedig ac yn eu cysuro yn ôl yr angen, er enghraifft os oeddent yn niweidio eu hunain. Clywsom y plant yn chwerthin yn aml ac roedd yn amlwg eu bod wedi ffurfio cyfeillgarwch gyda'i gilydd a'r ymarferwyr ac yn mynd atyn nhw os oedd angen cymorth arnynt, er enghraifft wrth wisgo eu cotiau.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn ymddiried yn yr ymarferwyr.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn â'i gilydd a'r ymarferwyr.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion a'r oedolion. Roeddent yn trafod gyda'i gilydd wrth chwarae ynghyd, gan rannu teganau gan gynnwys offer toes chwarae a briciau adeiladu. Gwelsom eu bod yn gwrtais gyda'r oedolion, er enghraifft, yn dweud diolch yn ystod amser byrbryd.  Roedd y plant yn gofalu am offer ac adnoddau yn briodol ac yn gwybod lle'r oedd teganau'n cael eu cadw. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn chwarae gyda'i gilydd ac yn mwynhau chwarae wedi'i arwain gan oedolion gyda threfnydd siapiau neu gwblhau jig-sô. Roedd y plant ifancach yn dod yn hunan ymwybodol ac yn mynegi eu dewisiadau wrth iddynt ddal dwylo'r ymarferwyr a'u harwain i'r hyn roeddent ei eisiau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n llwyddiannus ac maent wedi dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn llwyr ymroi i chwarae a dysgu. Roeddent yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel. Roedd y plant yn mwynhau cyfnodau estynedig o chwarae heb unrhyw darfu arnynt, er enghraifft roedden nhw'n chwarae yn yr awyr agored ac yn mwynhau gweld sut roedd iâ wedi ffurfio a gweld sut roedd melinau gwynt yn gweithio. Yn ystod gweithgareddau wedi'u harwain gan ymarferwyr roedd y plant yn canolbwyntio am gyfnod o amser addas, er enghraifft wrth iddynt osod traciau trên a phaentio eu darluniau eu hunain. Roedd y plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau cyfnod o ganu caneuon actol. Roeddent yn gallu ymlacio ar ôl cinio a dewisodd rhai o'r plant hŷn gysgu am ysbaid.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a ddarperir yn frwdfrydig.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn dysgu, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau, gan gynnwys chwarae heb ei strwythuro a oedd yn eu galluogi i feithrin sgiliau, er enghraifft, gwelsom blentyn yn dysgu cyfrif wrth rannu torwyr toes chwarae. Roedd y plant yn llwyddo i gyflawni nifer o bethau drostynt eu hunain am fod ganddyn nhw'r sgiliau hunangymorth priodol, er enghraifft aeth nifer o blant i'r tŷ bach ar eu pen eu hunain a golchi eu dwylo gyda chymorth cyn byrbryd os oedd angen. Roedd babi yn dysgu i gerdded yn ystafell y babis wrth dynnu ei hun i fyny, gan ddefnyddio dodrefn isel i'w helpu. Roedd gan y plant berthnasau sicr gydag ymarferwyr cyson, a oedd yn eu helpu i fagu hyder a goresgyn heriau. Roedd plentyn yn profi ymdeimlad o gyflawniad wrth fod yn Helpwr Heddiw a dosbarthu'r pwdinau amser cinio.

Mae'r plant yn dysgu amrywiaeth o sgiliau yn gyson, ac yn cael eu hannog i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy gydymffurfio â nifer o bolisïau a gweithdrefnau. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n llwyddiannus gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Maent yn ofalgar, yn fagwrus ac yn ymateb i anghenion y plant. Mae amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn cael eu darparu er mwyn hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda ac wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd yr ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Wrth drafod ag ymarferydd, gwelwyd eu bod yn ymwybodol o'r broses ddiogelu i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon am blentyn yn eu gofal. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd y rhifau cyswllt angenrheidiol ar ffeil. Defnyddiwyd monitors babis ac arsylwadau rheolaidd er mwyn edrych ar ôl babis a oedd yn cysgu. Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr gymwysterau Cymorth Cyntaf cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos bod digwyddiadau'n cael eu trin yn briodol a bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt ac yn llofnodi'r cofnodion. Roedd yr ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i fod yn egnïol yn yr awyr agored o leiaf ddwywaith y dydd. Roedd babis yn cael eu cludo allan i'r awyr agored os oedd eu trefn ddyddiol a'r tywydd yn caniatáu ac felly ni welsom hyn ond gwelsom luniau a gymerwyd yn ystod yr haf o blant yn mwynhau eu hunain yn yr ardd. Gwelsom fyrbryd iach gyda dŵr neu lefrith i'w yfed yn cael ei ddarparu, a oedd yn dangos bod yr ymarferwyr yn hybu egwyddorion bwyta'n iach. Gwelsom fod cinio iach hefyd yn cael ei ddarparu ac roedd bwydlen tair wythnos faethlon yn cael ei harddangos. Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dyfarnu Lefel 5 ar gyfer paratoi bwyd yn ddiogel. Roedd cofnodion cynhwysfawr yn dangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac y caiff y gweithdrefnau eu gwerthuso er mwyn sicrhau bod y plant a'r ymarferwyr yn gwybod sut i symud y plant o'r adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Roedd pob ardal yn lân a gosododd yr ymarferwyr egwyddorion yr Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau ar waith wrth i ni weld y weithdrefn glanhau bwrdd cywir. Mae'r person cofrestredig yn bwriadu defnyddio'r ddogfen fel rhan o sefydlu ymarferwyr newydd.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn flaenoriaeth.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol.

Roedd yr ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn dda drwy ddathlu rhyngweithiadau da. Gwnaethant ganmol y plant yn aml, er enghraifft am ddweud os gwelwch yn dda, diolch ac am helpu i dacluso teganau. Dangosodd yr ymarferwyr barch

tuag at farn y plant wrth iddynt eistedd a sgwrsio'n anffurfiol o amgylch y bwrdd byrbryd. Roeddent yn deall datblygiad plentyn a'r ffordd mae'n effeithio ar ymddygiad plentyn a defnyddio cyfleoedd i roi esboniadau syml i helpu plant i ddeall egwyddorion megis cymryd eu tro. Defnyddion nhw dechnegau tynnu sylw yn effeithiol fel y dangoswyd pan oedd plentyn yn awyddus i chwarae gyda rhywbeth nad oedd hawl ganddo. Mae systemau gwobrwyo megis siart sêr a Helpwr Heddiw yn gweithio'n effeithiol er mwyn cymell y plant. Roedd yr ymarferwyr yn fodelau rôl da ac roeddent yn siarad yn dawel ac yn garedig â'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn llwyddiannus, gan helpu'r plant i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r ymarferwyr gofalgar yn hybu dysgu a datblygiad y plant, gan ddarparu amrywiaeth o brofiadau dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd yr ymarferwyr yn rhyngweithio'n hapus â'r plant bob amser, gan greu awyrgylch hamddenol a helpu'r plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwelwyd cynllunio misol ac wythnosol a ddangosodd amrywiaeth dda o ffyrdd i ymgysylltu â phlant mewn meysydd o ddatblygiad megis datblygiad corfforol, ieithyddol, rhifyddol a chyfleoedd i fod yn greadigol. Defnyddiwyd cyfleoedd dysgu byrfyfyr megis edrych ar rew ac iâ y tu allan ac aethpwyd â'r plant allan eto ar ôl cinio i weld a oedd yr iâ wedi toddi. Roedd yr ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored gan gynnwys canu, crefft, llyfrau, a chegin fach y tu allan. Defnyddiwyd teganau cerddorol yn ystafell y babis er mwyn annog eu datblygiad synhwyraidd. Roedd y plant nad oeddent yn dod o gartrefi Cymraeg yn achlysurol ac yn naturiol yn dysgu ymadroddion Cymraeg. Roeddent yn deall yn dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml.

Roedd yr ymarferwyr yn cwrdd â gofynion unigol am eu bod yn adnabod y plant yn dda, er enghraifft roedden nhw'n gwybod am ddatblygiad y plant a'u cefndiroedd ieithyddol. Roedd yr ymarferwyr yn gwybod am batrymau cysgu'r plant ac yn addasu eu trefn ddyddiol yn unol â hyn, er enghraifft yn gadael iddynt gysgu am gyfnod hirach. Cafodd manylion personol ar gyfer y plant eu diweddaru gan y rhieni. Cadwyd cofnodion datblygiadol gyda lluniau o'r plant ac enghreifftiau o'u creadigaethau a gafodd eu rhannu gyda'r rhieni.

Mae'r ymarferwyr yn hybu dysgu'r plant yn effeithiol drwy ddarparu amgylchedd chwarae â digonedd o weithgareddau. Roeddent yn cwrdd â gofynion unigol am eu bod yn adnabod y plant yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel ac mae asesiadau risg ysgrifenedig a chynhwysfawr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda, dan do ac yn yr awyr agored, gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r arweinwyr hefyd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn amrywiol, yn ysgogol ac yn addas i'r plant sy'n mynychu. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd yr holl ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel a gwelsom adnoddau diogelwch megis gatiau diogelwch a tharmac rwber y tu allan. Gwelsom asesiadau risg wedi'u llofnodi gan bob ymarferydd yn dangos eu bod yn gwybod beth oedd y risgiau a sut i'w rheoli. Cynhaliwyd adolygiad llawn o asesiadau risg er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal i'r safonau gorau posib a'i fod yn ddiogel. O ganlyniad gosodwyd system larymau tân newydd. Roedd gofyn i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr ar ôl cael eu derbyn drwy'r drws allanol sydd ar glo. Roedd yr ardaloedd yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn amgaeedig. Roedd y cynllun gwagio wedi cael ei adolygu a'i rannu gyda'r holl ymarferwyr ac roedd yn cael ei arddangos.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd a'r gweithgareddau yn effeithiol.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i oedran y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

Roedd yr holl ystafelloedd wedi'u dodrefnu'n addas gan gynnwys byrddau bach a chadeiriau a matiau cysgu. Roedd seddi cyfforddus ar gael ym mhob ystafell. Roedd tai bach o faint addas i'r plant er mwyn eu galluogi i'w defnyddio'n annibynnol ynghyd ag ardal newid cewynnau gydag adnoddau llawn. Roedd tymereddau ystafelloedd yn cael eu cofnodi yn ystafell y babis ac yn dangos bod yr amgylchedd wastad wedi bod yn ddigon cynnes. Defnyddiwyd y gofod awyr agored yn y ffordd orau i alluogi'r plant i gael budd o ymarfer corff rheolaidd ac awyr iach. Gwelsom y plant yn defnyddio ystod eang o offer gan gynnwys beiciau, sialc a batiau a pheli.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau'n gyson bod yr amgylchedd yn cynnwys cyfarpar da, yn addas i blant ac yn ysgogol.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn amrywiol, yn addas at oedran y plant, yn lân ac o ansawdd da.

Roedd yr holl deganau a'r gemau'n lân ac mewn cyflwr da. Roedd teganau yn ystafell y babis yn cael eu glanhau'n rheolaidd, yn fisol fel yr oedd y cofnodion yn dangos. Roedd y cyfarpar a'r dodrefn yn addas i oedran y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth, gan gynnwys cyfarpar awyr agored fel peli a chylchynnau o feintiau amrywiol. Roedd digon o adnoddau fel eitemau paentio a chrefft. Roedd adnoddau amlddiwylliannol a Chymraeg ar gael. Roedd teganau yn yr ystafelloedd llawr gwaelod yn cael eu storio mewn bocsys y gallai'r plant eu hestyn neu eu gweld a oedd yn eu galluogi i ddewis.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau ansawdd a phriodoldeb yr adnoddau a'r cyfarpar.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus ac yn ceisio darparu gwasanaeth o safon, a chanlyniadau da ar gyfer y plant. Mae'r broses hunanwerthuso yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant parhaus digonol, cymorth ac adnoddau ond gellir gwneud peth gwelliant yn y maes hwn. Mae'r partneriaethau â'r rhieni ac eraill yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, sy'n cael ei rhannu â'r rhieni.

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad o bwrpas a disgwyliadau i hyrwyddo gwelliant a chanlyniadau da ar gyfer y plant, er enghraifft wrth sicrhau bod safon ac arferion yr ymarferwyr yn cwrdd â gofynion y plant sy'n derbyn gofal. Gwelsom weithlu hapus, cymwys sy'n cael ei gefnogi'n dda a dywedodd yr ymarferwyr wrthym ei fod yn lle da i weithio. Gwelsom ymarfer cyson drwy gydol y gwasanaeth ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r arweinwyr bob amser wedi cydymffurfio yn gyflym ag unrhyw argymhellion a wnaed ac yn sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu cyflawni, fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan AGC y copi diweddaraf o'r Datganiad o Ddiben ac roedd yr holl bolisïau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018.

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad clir o ddiben, sy'n arwain at ganlyniadau da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a gwella parhaus. Maent yn ystyried barn eraill ac yn gosod newidiadau ar waith yn ôl eu gallu. Roedd eu hadolygiad blynyddol o ansawdd gofal ar gyfer 2018 yn cynnwys llawer o wybodaeth am y gwasanaeth, gan gynnwys meysydd o arfer da a chynlluniau gwella. Roedd rhai meysydd ar gyfer gwella eisoes wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys newid y lloriau yn yr ystafelloedd, a gafodd ei awgrymu gan yr ymarferwyr.

Mae'r arweinwyr yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod, a chymerir camau gweithredu er mwyn cynnal safonau uchel a gwella ymarfer yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith i reoli'r ymarferwyr a'r adnoddau.

Gwnaethom archwilio ffeil ar gyfer yr ymarferwr diweddaraf a gwelsom fod prosesau recriwtio cadarn wedi cael eu dilyn er mwyn sicrhau bod gan yr ymarferwyr y profiad a'r cymwysterau perthnasol. Roedd gan bob ymarferydd wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwnaethom siarad hefyd â'r ymarferwyr a gadarnhaodd eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth ond nid oedd cyfarfodydd llawn o'r staff wedi digwydd ers peth amser. Roedd arfarniadau blynyddol wedi'u dogfennu pan gafodd hyfforddiant ei nodi. Gwelsom nodiadau arolygu gwag yn barod i gael eu defnyddio, ac roedd y person cofrestredig yn awyddus i sicrhau bod y staff yn cymryd rhan fwy amlwg a dirprwyo ychydig o'r cyfrifoldebau.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar gyfer rheoli recriwtio ond mae angen iddynt wella'r ffordd maent yn arolygu a'r ffordd y mae'r ymarferwyr yn ymwneud â'r gwaith.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am y gwasanaeth ac mae ganddynt bartneriaethau pwysig â nhw ac asiantaethau eraill.

Roedd yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn hawdd mynd atynt ac yn cyfathrebu'n agored â'r rhieni yn ôl yr angen.  Gall y rhieni siarad â'r ymarferwyr bob dydd ac maent yn cael cyfle i rannu eu barn unwaith y flwyddyn drwy holiadur. Gwelsom lawer o gardiau diolch oddi wrth rieni a phlant, a oedd yn dangos boddhad â'r gwasanaeth.  Rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig i rieni'r babis am ddiwrnod eu plentyn. Gwelsom gylchlythyrau rheolaidd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r rhieni. Defnyddiodd y person cofrestredig asiantaeth allanol i arwain ar faterion iechyd a diogelwch ac mae wedi gwella diogelwch tân o ganlyniad i hynny. Ceir mynediad at gyrsiau trwy gyfrwng cysylltiadau â'r Mudiad, yr NDNA a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol hefyd. Dywedodd un rhiant wrthym fod ei phlentyn wedi setlo'n dda iawn a'i bod yn hapus oherwydd bod y feithrinfa yn fach ac yn gartrefol a bod pawb yn adnabod ei phlentyn wrth ei enw.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod partneriaethau â'r rhieni ac eraill o fudd i'r plant ac yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol iddyn nhw a'u teuluoedd.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- ymestyn y gwaith o gynllunio gweithgareddau i gynnwys cysylltiad â chofnodion datblygiad y plant. Gallent hefyd ddangos sut y cynllunnir ar gyfer chwarae yn yr awyr agored a nodi pa sgiliau y mae plant yn eu dysgu drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau.

- cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cynnwys yr holl staff er mwyn rhoi llais cryfach iddynt ac i gofnodi cyfarfodydd arolygu.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 3 Ionawr 2019 rhwng 09.40 a 15.50.

Gwnaethom:

- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, un rhiant a dau ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r person cofrestredig.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Mari Roberts** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **22** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis i 4 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i Ddydd Gwener 07.30 – 18.00** heblaw am wyliau'r banc ac un wythnos ar gau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **25 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **03 January 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |